| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **26 Ionawr 2015** |
| **TEITL :** | **Ceisiadau am oddefeb** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar y ceisiadau** |

**Cefndir**

1 Atodaf gopi o ffurflen gais y Cyng. John Pughe Roberts, Aelod Corris/Mawddwy ar Gyngor Gwynedd, mewn cysylltiad â thrafodaethau ar ad-drefnu addysg yn nalgylch Ysgol y Gader, Dolgellau ynghyd â ffurflen y Cyng. Dilwyn Morgan, Aelod Y Bala, Cyngor Gwynedd mewn cysylltiad ag ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Ysgol y Berwyn, Y Bala.

2. Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu goddefeb os yw'r sefyllfa yn dod o fewn un (neu fwy) o'r sefyllfaoedd a restrir yn y rheoliadau perthnasol (gweler Atodiad).

3. Mae'r Pwyllgor yn y gorffennol wedi gosod canllawiau i'w hystyried wrth ystyried ceisiadau yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion:

*Y byddai 'tad/mam, taid/nain, ŵyr/wyres, gŵr neu wraig, plant, brawd neu chwaer yn creu cysylltiad rhy agos i ganiatáu gollyngiad o safbwynt ysgolion penodol oherwydd y byddai'n anodd i'r cyhoedd gael hyder yn y modd y gwneid y penderfyniadau*"

4. Mae canllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad yn nodi'r canlynol mewn cysylltiad â goddefebau yn gyffredinol:

*"Bydd angen i'r pwyllgor safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiant sy'n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r awdurdod sy'n weddol gynrychioladol. Os bydd methu rhoi goddefeb yn golygu na fydd awdurdod neu bwyllgor yn cyflawni'r cworwm, gall hyn fod yn rheswm dros roi goddefeb."*

5. Cyflwynir unrhyw wybodaeth bellach fydd wedi ei dderbyn ynglŷn â'r ceisiadau yn y cyfarfod.

**Argymhelliad**

6. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar y ceisiadau.